**ELL 12-02(p.5)**
**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

14 Mehefin 2002

Annwyl Gyfaill,

**CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU**

Fel y gwyddoch, sefydlwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2000 fel y corff proffesiynol i reoleiddio athrawon. Cafodd y rheoliadau sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad a swyddogaethau'r Cyngor, ac ar gyfer cofrestru a disgyblu athrawon a ffïoedd cofrestru eu cyflwyno gan y Cynulliad ar ôl ymgynghori gyda chi ac amrywiaeth eang o sefydliadau eraill.

Mae'r Mesur Addysg sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn gwneud darpariaeth i roi nifer o gyfrifoldebau ychwanegol i'r Cyngor. Ysgrifennaf atoch unwaith eto i gael eich barn ar y rheoliadau drafft yr hoffai'r Cynulliad eu cyflwyno erbyn 1 Ebrill 2003, ar yr amod y bydd y Mesur yn derbyn Y Cydsyniad Brenhinol yn ystod yr haf. Rwy'n amgáu drafftiau o:

**1. <u>Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diddymu Rheolaeth) 2003</u>**

Ers 1 Ebrill 2002, mae'r Cyngor wedi bod yn ei ariannu ei hunan trwy gasglu ffïoedd cofrestru gan athrawon, er bod y Cynulliad yn parhau i roi ychydig o arian i'r Cyngor a bydd yn parhau i wneud hynny tan fis Ebrill 2004. Gyda'r Cyngor hefyd yn tyfu'n fwyfwy annibynnol, mae'r Mesur Addysg yn darparu ar gyfer gorchymyn fydd yn llacio rhywfaint ar y rheolaeth weinyddol sydd gan y Cynulliad dros y Cyngor. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig i Godi Rheolaeth dros Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn diddymu:

i. yr angen i'r Cyngor gael cymeradwyaeth y Cynulliad i lunio cyrff corfforedig, neu gyrff

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel:029 2082 6116
GTN:1208
Ffacs • Fax:029 2082 6109
Ebost • Email:Sue Lovell@wales.gsi.gov.uk

cysylltiedig neu gyrff eraill, i ymuno gyda mentrau ar y cyd, tanysgrifio ar gyfer cyfranddaliadau a stociau a benthyca arian;

ii. yr angen i'r Cyngor gael cymeradwyaeth y Cynulliad i benderfynu ar gyflogau ac
amodau staff gan gynnwys pensiynau;

iii. pwer y Cynulliad i bennu cyflogau, ffioedd, lwfansau teithio a chynhaliaeth a lwfansau
eraill, pensiynau, iawndal, lwfansau teithio a chynhaliaeth i aelodau;

iv. yr hawl i gynrychiolydd o'r Cynulliad fynychu pwyllgorau'r Cyngor.

Gan y bydd y Cynulliad yn parhau i ariannu swyddogaethau craidd y Cyngor tan fis Ebrill 2004, mae'r Cynulliad yn cynnig ei fod yn cadw rhywfaint o'i reolaeth bresennol megis yr hawl i weld dogfennau'r Cyngor ac i roi Cyfarwyddyd Cyfrifo i'r Cyngor.

**C. A ydych yn cytuno gyda'r rhestr o eitemau y bwriedir eu cynnwys yn y Gorchymyn i lacio'r rheolaeth sydd ar y Cyngor ar hyn o bryd?**

**2. <u>Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003</u>**

Rydym yn cynnig newid Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru(Swyddogaethau
Disgyblu ) 2001 i:

(i) alluogi'r Cyngor i ychwanegu amodau at orchymyn atal dros dro y bydd yn rhaid i athro eu bodloni cyn cael ail-gofrestru.

Mae gorchymyn atal dros dro yn un o bedair cosb y gall y Cyngor eu rhoi i athrawon dan ei bwerau disgyblu presennol. Ar hyn o bryd, caiff gorchymyn atal dros dro ei bennu am nifer benodol o flynyddoedd (ond heb fod dros 2 flynedd), ac wedi hynny mae'r athro yn gymwys i ail-gofrestru gyda'r Cyngor. Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn awyddus i gymryd rhan broactif i "ailgymhwyso" athrawon a byddai'r rheoliadau arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i ychwanegu amodau at orchymyn atal dros dro y bydd yn rhaid i athro eu bodloni cyn cael ail-gofrestru. Trwy hyn, gall y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i athro gymryd camau penodol yn ystod cyfnod yr atal dros dro fel y caiff y Cyngor ystyried ei gais i ail-gofrestru. Mae'r cynnig i ychwanegu amodau at orchymyn atal dros dro yn adlewyrchu y pwerau sydd gan y Cyngor eisoes o ran gorchmynion cofrestru amodol;

(ii) newid gofynion aelodaeth y Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd Proffesiynol i ddiddymu'r gofyniad i Aelodau'r Cyngor eistedd ar Bwyllgor pan fydd achos yn erbyn aelod o'r Cyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw un o'r penderfyniadau mewn achosion o'r fath yn ddi-duedd.

**C. A ydych yn cytuno y dylai'r Cyngor gael yr hawl i ychwanegu amodau at orchymyn atal dros dro ac y dylid newid gofynion aelodaeth Pwyllgorau**

**Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd Proffesiynol i ddiddymu'r angen bod Aelodau'r Cyngor yn eistedd ar y Pwyllgor pan geir achos yn erbyn aelod o'r Cyngor?**

## 3. Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003

Bydd yn ofynnol dan y rheoliadau hyn i gyflogwyr athrawon ac asiantaethau athrawon llanw hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am bob achos o gamymddwyn, ac i hysbysu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru am achosion o anghymhwysedd. Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol o gwbl i asiantaethau athrawon llanw hysbysu neb o'r achosion hyn.

Bydd y rheoliadau newydd yn disodli darpariaethau perthnasol rheoliadau disgyblu presennol y Cyngor (Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblaethol) 2001) o ran bod cyflogwyr yn hysybysu'r Cyngor pan fydd athrawon yn cael eu gwahardd o ganlyniad i anghymhwysedd a Rheoliadau Cyfyngu Cyflogaeth 1999 o ran bod cyflogwyr yn hysbysu'r Cynulliad am achosion o gamymddwyn. Felly dim ond un gyfres o reoliadau fydd i gwmpasu'r holl wybodaeth y bydd gofyn i gyflogwyr ac asiantaethau ei rhoi i'r Cyngor a'r Cynulliad.

Mae'r wybodaeth y bydd angen i gyflogwyr ei darparu yn adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd yn ôl y gyfraith a bydd y wybodaeth sydd angen i asiantaethau athrawon llanw ei darparu yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan gyflogwyr. O ran trafod achosion, ni fydd newid i'r drefn bresennol.

**C. A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i gyflogwyr athrawon ac asiantaethau athrawon llanw hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru am achosion o gamymddwyn ymhlith athrawon a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru pan gaiff athro cofrestredig ei ddiswyddo ar sail anghymhwyster, a (ii) a ydych yn fodlon gyda'r rhestr o wybodaeth sydd i'w darparu gan gyflogwr (Rhan 1) a chan asiant (Rhan 2)?**

**Ymateb**

A fyddech cystal ag anfon eich ymateb, **erbyn 9 Awst 2002**, at:

Oriel Price
Uned Gysylltiadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 20801030
Ffacs: 029 20826119
Ebost: gtcw.enquiries@wales.gsi.gov.uk

**Copiau ychwanegol**

Gellir cael copïau ychwanegol o'r rheoliadau drafft gan Oriel Price o'r cyfeiriad uchod ac ar wefan y Cynulliad yn www.wales.gov.uk

Os hoffech drafod y rheoliadau drafft yn fanylach, mae croeso i chi fy ffonio i ar 029 2082 6116 neu Christine Chapple ar 029 2082 60655.

Yr eiddoch yn gywir

**Sue Lovell**
**Pennaeth Uned Gysylltiadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

**2003 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr athrawon ac asiantaethau cyflenwi roi adroddiadau ar achosion o gamymddygiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), ac achosion o anghymwysedd i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor").

Rhaid i gyflogwyr roi adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol os ydynt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person ar sail sy'n ymwneud â chamymddygiad y person hwnnw, neu os y gallent fod wedi gwneud pe na bai'r person hwnnw eisoes wedi peidio â darparu ei wasanaethau. Os yw'r sail yn ymwneud ag anghymwysedd athro neu athrawes gofrestredig, rhaid rhoi'r adroddiad i'r Cyngor.

Rhaid i asiantau roi adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol os ydynt wedi trefnu i weithiwr gyflawni gwaith ar ran awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu neu perchennog ysgol annibynnol ac y maent yn terfynu'r trefniadau hynny ar sail sy'n ymwneud â chamymddygiad y gweithiwr, neu y gallent fod wedi gwneud pe na bai'r person hwnnw eisoes wedi terfynu'r trefniadau neu wedi peidio â bod ar gael i weithio. Os yw'r sail yn ymwneud ag anghymwysedd athro neu athrawes gofrestredig, rhaid rhoi'r adroddiad i'r Cyngor.

Mae'r Atodlen yn nodi'r wybodaeth sydd i'w darparu yn yr adroddiadau.

OFFERYNNAU STATUDOL

**2003 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2003* |
| *Yn dod i rym* | *[Ebrill] 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6, 15, 15A a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac Atodlen 2 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

—1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar [Ebrill 2003]. .

(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diddymu

Diddymir rheoliad 4 o Reoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000(**3**) a rheoliad 28 o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001**(ch)**.

### Dehongli

Heblaw pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y rheoliadau hyn –

mae i "asiant" yr ystyr a roddir i "*agent*" yn adran 15A(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "athro neu athrawes gofrestredig" *("registered teacher")* yw –

(a) person sydd ar hyn o bryd wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

(b) person a gofrestrwyd o dan adran 3 o Ddeddf 1998 ar adeg unrhyw ymddygiad neu dramgwydd honedig ar ei ran; neu

(c) person sydd wedi gwneud cais i gael ei gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

---

(**1**) 1998 p.30. Amnewidir adran 15 a mewnosodir adran 15A gan baragraff 83 o Atodlen 21 i Ddeddf Adddysg 2002 (p. ). Am ystyr "prescribed" *gweler* adran 43(1) o Ddeddf 1998.

(**2**) *Gweler* adran 204 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2000/2906 (Cy. 186).

**(ch)** O.S. 2001/1424 (Cy. 99), a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/ .

mae i “cyflogwr perthnasol” yr ystyr a roddir i *“relevant employer”* yn adran 138 o Ddeddf Addysg 2002(**4**);

ystyr “y Cyngor” *(“the Council”)* yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “Deddf 1998” *(“the 1998 Act”)* yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr “gwasanaethau” *(“services”)* yw gwasanaethau a ddarparwyd i gyflogwr perthnasol yng Nghymru ac mae’n cynnwys gwasanaethau proffesiynol a gwirfoddol;

mae i “gweithiwr” yr ystyr a roddir i *“worker”* yn adran 15A(1) o Ddeddf 1998.

ystyr “Pwyllgor” *(“Committee”)* yw Pwyllgor Ymchwilio, Pwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol neu Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a sefydlwyd o dan Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001;

ystyr “Pwyllgor Ymchwilio” *(“Investigating Committee”)* yw pwyllgor a sefydlwyd o dan reoliad 3(1) o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001; ac

ystyr “trefniadau” yw trefniadau o’r math y cyfeirir atynt yng nghyswllt y gair *“arrangements”* yn adran 15A(1) o Ddeddf 1998 i weithiwr gyflawni gwaith yng Nghymru.

**Adroddiadau gan gyflogwr**

Pan –

(a) fo cyflogwr perthnasol wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person am reswm sy’n ymwneud â’i gamymddygiad; neu

(b) y gallai cyflogwr perthnasol fod wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person am reswm sy’n ymwneud â’i gamymddygiad pe na bai wedi rhoi’r gorau i ddarparu’r gwasanaethau hynny,

rhaid i’r cyflogwr roi adroddiad am ffeithiau’r achos a darparu’r holl wybodaeth a restrwyd yn Rhan I o’r Atodlen sydd ar gael i’r cyflogwr mewn perthynas â pherson o’r fath i’r Cynulliad Cenedlaethol.

—(c) Pan –

(d) fo cyflogwr perthnasol wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person sy’n athro neu athrawes gofrestredig am reswm sy’n ymwneud â’i anghymwysedd proffesiynol; neu

(e) y gallai cyflogwr perthnasol fod wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person sy’n athro neu athrawes gofrestredig am reswm sy’n ymwneud â’i anghymwysedd proffesiynol pe na bai wedi rhoi’r gorau i ddarparu’r gwasanaethau hynny,

(**4**) 2002 p. .

rhaid i'r cyflogwr roi adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrwyd yn Rhan I o'r Atodlen sydd ar gael i'r cyflogwr mewn perthynas â pherson o'r fath i'r Cyngor.

(2) Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

**Adroddiadau gan asiant**

Pan –

(a) fo asiant wedi terfynu trefniadau am reswm sy'n ymwneud â chamymddygiad y gweithiwr;

(b) y gallai asiant fod wedi terfynu trefniadau am reswm sy'n ymwneud â chamymddygiad y gweithiwr pe na bai'r gweithiwr wedi'u terfynu; neu

(c) y gallai asiant fod wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer gweithiwr am reswm sy'n ymwneud â chamymddygiad y gweithiwr pe na bai'r gweithiwr wedi peidio â rhoi ei hun ar gael i weithio,

rhaid i'r asiant roi adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrwyd yn Rhan II o'r Atodlen sydd ar gael i'r asiant mewn perthynas â'r gweithiwr i'r Cynulliad Cenedlaethol.

—(d) Pan –

(e) fo asiant wedi terfynu trefniadau i weithiwr sy'n athro neu athrawes gofrestredig gyflawni gwaith am reswm sy'n ymwneud â'i anghymwysedd proffesiynol;

(f) y gallai asiant fod wedi terfynu trefniadau am reswm sy'n ymwneud â'i anghymwysedd proffesiynol pe na bai'r gweithiwr wedi'u terfynu; neu

(g) y gallai asiant fod wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer gweithiwr sy'n athro neu athrawes gofrestredig am reswm sy'n ymwneud â'i anghymwysedd proffesiynol pe na bai'r gweithiwr wedi peidio â rhoi ei hun ar gael i weithio,

rhaid i'r asiant roi adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrwyd yn Rhan II o'r Atodlen sydd ar gael i'r asiant mewn perthynas â'r athro neu athrawes gofrestredig i'r Cyngor.

(3) Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

Llofnodwyd a ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

(**5**)

YR ATODLEN

RHAN 1

**Gwybodaeth sydd i'w chyflenwi gan gyflogwr perthnasol**

**1.** Llythyr neu hysbysiad i roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person.

**2.** Datganiad o'r rhesymau dros roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person.

**3.** Cofnodion y cyflogwr sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu unrhyw ystyriaeth i wneud hynny, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyfweld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a dderbyniwyd gan y cyflogwr.

**4.** Cofnodion y cyflogwr sy'n ymwneud â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu allai, oni bai fod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain i'r cyflogwr roi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyfweld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a dderbyniwyd gan y cyflogwr.

**5.** Llythyrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan y cyflogwr a roddwyd i berson mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ystyriaeth i wneud hynny, neu'r ymddygiad arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu allai, pe na bai'r person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain i'r cyflogwr roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau, ac atebion neu gynrychioliadau'r person mewn perthynas â hynny.

**6.** Unrhyw ddatganiadau, gynrychioliadau a thystiolaeth eraill a gyflwynwyd gan berson i'r cyflogwr mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ystyriaeth i wneud hynny, neu'r ymddygiad arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu allai, oni bai fod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain i'r cyflogwr roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau.

**7.** Llythyr yn hysbysu bwriad person i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

**8.** Unrhyw ddogfen neu wybodaeth arall y mae'r cyflogwr yn ystyried yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad allai gael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw gamau y gallai'r Pwyllgor eu cymryd yn erbyn athro neu athrawes gofrestredig.

RHAN II

**Gwybodaeth i'w chyflenwi gan asiant**

**1.** Llythyr neu hysbysiad yn terfynu trefniadau.

**2.** Datganiad o'r rhesymau dros derfynu'r trefniadau.

**3.** Unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â therfynu'r trefniadau neu unrhyw ystyriaeth i wneud hynny, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyfweld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a dderbyniwyd gan yr asiant.

**4.** Unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau neu allai, pe na bai'r gweithiwr wedi terfynu'r trefniadau, fod wedi arwain i'r asiant eu terfynu, neu allai, pe na bai'r gweithiwr wedi peidio â rhoi ei hun ar gael i weithio, fod wedi arwain i'r asiant ymatal rhag gwneud trefniadau newydd, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyfweld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a dderbyniwyd gan yr asiant.

**5.** Llythyrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan asiant a roddwyd i berson mewn perthynas â therfynu trefniadau, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu'r trefniadau, neu allai, pe na bai'r gweithiwr wedi terfynu'r trefniadau, fod wedi arwain i'r asiant eu terfynu, neu allai, pe na bai'r gweithiwr wedi peidio â rhoi ei hun ar gael i weithio, fod wedi arwain i'r asiant ymatal rhag gwneud trefniadau newydd, ac atebion y gweithiwr neu gynrychioliadau mewn perthynas â hynny.

**6.** Unrhyw ddatganiadau, gynrychioliadau a thystiolaeth a gyflwynwyd gan berson i'r asiant mewn perthynas â therfynu trefniadau, neu'r ymddygiad arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau neu allai, oni bai fod y gweithiwr wedi terfynu trefniadau, fod wedi arwain i'r asiant eu terfynu, neu allai, oni bai fod y gweithiwr wedi peidio â rhoi ei hun ar gael i weithio, fod wedi arwain i'r asiant ymatal rhag gwneud trefniadau newydd.

**7.** Llythyr gan y gweithiwr yn terfynu trefniadau neu yn peidio â rhoi ei hun ar gael i weithio.

**8.** Unrhyw ddogfen neu wybodaeth arall sydd ym marn yr asiant yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad y gellid ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw gamau y gallai Pwyllgor eu cymryd yn erbyn athro neu athrawes gofrestredig.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

---

**2003 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001 ('Rheoliadau 2001'). Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau disgyblu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, sef corff corfforaethol a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 gyda'r nodau o gyfrannu tuag at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon er budd y cyhoedd.

Mae rheoliad 8 o Reoliadau 2001 yn cael ei ddiwygio er mwyn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor a fydd yn delio ag achos yn erbyn aelod o'r Cyngor beidio â chynnwys aelod arall o'r Cyngor ac i ddarparu ar gyfer y cworwm ar gyfer cyfarfod Pwyllgor o'r fath.

Mae Deddf Addysg 2002 yn cyflwyno pŵer i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru osod amodau ar unrhyw orchmynion atal y mae'n eu gwneud yn dilyn achos disgyblu yn erbyn athro neu athrawes gofrestredig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2001 er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i orchymyn atal gofnodi unrhyw amodau y mae angen i athro neu athrawes gydymffurfio â hwy, ac i'w gwneud hi'n ofynnol i Bwyllgor gynnwys yn yr hysbysiad o'r gorchymyn disgyblu a gyflwynwyd i athro neu athrawes esboniad o'r hawl i wneud cais i amrywio neu ddiddymu amod, a sut i wneud hynny. Gwneir darpariaeth hefyd mewn perthynas â'r dull o wneud cais i amrywio neu ddiddymu amod, a sut yr eir ati i ddelio â cheisiadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ychwanegu asiantaeth gyflenwi lle bo hynny'n berthnasol at y rhai y mae'n ofynnol cyflwyno hysbysiad o orchymyn disgyblu iddynt.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

**2002 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003

*Wedi'u gwneud* *2003*

*Yn dod i rym* *[Ebrill 2003]*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adrannau 6 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**6**), a pharagraff 9 o Atodlen 1 a pharagraff 4 o Atodlen 2 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**7**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi a chychwyn

Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar [Ebrill 2003].

**2.** Caiff Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**8**) eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Caiff rheoliad 2 ei ddiwygio drwy –

(a) fewnosod y diffiniad canlynol ar ôl y diffiniad o "achos disgyblu" ym mharagraff (1) –

> "mae i "asiant" ("*agent*") yr ystyr a roddir gan adran 15A o Ddeddf 1998(**9**);" a

(b) amnewid y geiriau "rheoliad 8" yn lle'r geiriau "rheoliadau 8 a 28" ym mharagraff (5).

**4.** Diwygir rheoliad 8 drwy –

(a) mewnosod y geiriau "Yn ddarostyngedig i baragraff (1A)" ar ddechrau paragraff (1);

(a) fewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff (1):

---

(**6**) 1998 p.30. Mae Adran 6 ac Atodlenni 1 a 2 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru trwy rinwedd adrannau 8 a 9 o Orchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911) o 30 Rhagfyr 1998 ymlaen yn achos Atodlen 1, a 1 Medi 2000 yn achos gweddill y darpariaethau. Amnewidir paragraff 4 o Atodlen 2 gan baragraff 12 o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p. ). Am ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).

(**7**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 204 o Ddeddf Addysg 2002.

(**8**) O.S. 2001/1424 (Cy. 99).

(**9**) Mewnosodwyd adran 15A gan baragraff 83 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. ).

“(1A) Rhaid i Bwyllgor sy’n delio ag achos yn erbyn person sy’n aelod o’r Cyngor gynnwys un neu fwy aelod lleyg ac un neu fwy aelod sy’n athro neu’n athrawes gofrestredig, ond ni ddylai gynnwys aelod o’r Cyngor.”;

(c) mewnosod y geiriau “Yn ddarostyngedig i baragraff (3A)” ar ddechrau paragraff (3); a

(ch) mewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff (3):

“(3A) Y cworwm ar gyfer cyfarfod o Bwyllgor sy’n delio ag achos yn erbyn person sy’n aelod o’r Cyngor fydd tri aelod, gan gynnwys un aelod lleyg ac un aelod sy’n athro neu’n athrawes gofrestredig.”.

**5.** Diwygir Rheoliad 18 drwy –

(a) amnewid y paragraff canlynol yn lle paragraff (3) –

“(3) Rhaid i orchymyn atal, yn ychwanegol at yr eitemau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1), bennu –

(a) unrhyw amodau y dylai’r athro neu’r athrawes gydymffurfio â hwy cyn y gall fod yn gymwys unwaith eto ar gyfer cofrestru; a

(b) y cyfnod (nad yw’n fwy na dwy flynedd) pan ddaw’r athro neu’r athrawes unwaith eto yn gymwys ar gyfer cofrestru ar ei ddiwedd (yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag unrhyw amodau)”;

(b) ym mharagraff (6) hepgor yr “a” ar ddiwedd is-baragraff (a)(v) a mewnosod y canlynol ar ei ôl –

“(va) os gorchymyn atal sy’n pennu amodau yw’r gorchymyn, esboniad o hawl y person i wneud cais am amrywio neu ddiddymu amod a bennwyd yn y gorchymyn a’r dull ar gyfer gwneud cais o’r fath, a”; ac

(a) mewnosod ym mharagraff (6)(b) ar ôl y geiriau “gyflogwr presennol neu ddiwethaf” y geiriau “a, lle bo hynny’n berthnasol, asiant”.

Ar ôl rheoliad 21 mewnosodir y rheoliad canlynol –

**“Cais i amrywio neu neilltuo amod mewn gorchymyn atal**

**21A.**—(1) Gall person y mae gorchymyn atal wedi’i wneud mewn perthynas ag ef wneud cais i’r Cyngor i amrywio neu ddiddymu unrhyw amod a bennir yn y gorchymyn.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) gael ei wneud yn ysgrifenedig a phennu ar ba sail y mae’r person yn gofyn amrywio neu ddiddymu unrhyw amod a bennir yn y gorchymyn, a chyda’r cais rhaid anfon pob dogfen y dibynnir arni i ategu’r cais.

(3) Os cafodd gorchymyn atal y gwneir cais mewn perthynas ag ef o dan baragraff (1) ei wneud gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, rhaid i’r cais gael ei benderfynu gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol arall y mae’n rhaid iddo beidio â chynnwys fel aelod unrhyw berson a fu’n aelod o’r Pwyllgor a wnaeth y gorchymyn y cwynir yn ei erbyn.

(4) Os cafodd gorchymyn atal y gwneir cais mewn perthynas ag ef o dan baragraff (1) ei wneud gan Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol, rhaid i’r cais gael ei benderfynu gan Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol arall y mae’n rhaid

iddo beidio â chynnwys fel aelod unrhyw berson a fu’n aelod o’r Pwyllgor a wnaeth y gorchymyn y cwynir yn ei erbyn.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**10**) 1998 p.38.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

**2003 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Gwaredu Rheolaethau) 2003

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn gwaredu rheolaethau ar Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") sy'n arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol").

Caiff y rheolaethau canlynol eu gwaredu –

- Y gofyniad i'r Cyngor gael caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol cyn y gall arfer pwerau penodedig;
- Pŵer y Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu cyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill aelodau'r Cyngor;
- Y gofyniad i gael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thâl, lwfansau, amodau a thelerau gweithwyr y Cyngor;
- Y gofyniad i gael caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â phensiynau neu arian rhodd gweithwyr y Cyngor;
- Yr hawl i gynrychiolwyr y Cynulliad Cenedlaethol neu gynrychiolydd corff dynodedig i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

**2003 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Gwaredu Rheolaethau) 2003

*Wedi'i wneud* *2003*

*Yn dod i rym* *[Ebrill 2003]*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**11**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**12**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enw a chychwyn**

Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Gwaredu Rheolaethau) 2003 a daw i rym ar [Ebrill 2003]. .

**Diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**

At y diben o waredu neu lacio rheolaethau sy'n arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, diwygir Atodlen 1 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel a ganlyn –

(b) hepgorir paragraff 2(3);

(c) -

(i) ym mharagraff 4(1)(a), (3) a (4) yn lle "the Secretary of State" rhoddir "they";

(ii) yn lle paragraff 4(1)(b) rhoddir -

"shall, as regards any member in whose case they may determine pay or make provision for the payment of such sums by way of pension, allowances and gratuities to or in respect of him as they may determine."; a

(iii) ym mharagraff 4(2) yn lle'r geiriau "Secretary of State" pan fônt yn ymddangos am y tro cyntaf rhoddir "Council", ac yn lle'r geiriau "the Secretary of State may direct the Council to make to that person a payment of such amount as the Secretary of State may determine" rhoddir

(**11**) 1998 p.30. Mewnosodwyd paragraff 18 o Atodlen 1 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. ), Atodlen 12, paragraff 11. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru trwy rinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**12**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 204 o Ddeddf Addysg 2002.

"the Council may make to that person a payment of such amount as they may determine";

(d) hepgorir paragraff 5(4);

(ch) ym mharagraff 6(1) a (3) hepgorir y geiriau "with the consent of the Secretary of State" bob tro y maent yn ymddangos; a

(e) hepgorir paragraff 11(1).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**13**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**13**) 1998 p.38.